

Brîff ar Gyfer Arlunwyr – Dathlu Afon Cain

Cyflwyniad i Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren

Afon Hafren yw'r afon hiraf yn y Deyrnas Unedig, yn ymestyn 220 milltir o'i ffynhonnell ym Mynyddoedd Cambria ym Mhowys, trwy siroedd Swydd Amwythig, Swydd Gaerwrangon ac i mewn i Swydd Gaerloyw i'r Aber eiconig. Mae diwylliant ac economïau'r aneddiadau hanesyddol ledled y dalgylch wedi'u plethu â'r afon trwy fordwyfaeth fasnachol, pysgota, cyflenwi dŵr a masnach. Heddiw, mae afonydd Hafren yn dal i chwarae rôl hanfodol o safbwynt cefnogi bywyd gwylt, lles, ac economïau'r rhanbarth. Rydym yn byw trwy gyfnod o newid mawr. Rydym yng nghanol argyfwng bioamrywiaeth, ac argyfwng hinsawdd. Rydym yn dyst i golled drychinebus o ran cynefinoedd, ynghyd â chwymp ecosystemau, erydu priddoedd gwerthfawr, mwy o lifogydd a sychder difethol.

Yn Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren, rydym yn brwydro am ddyfodol lle gall ein plant a'n hwyrion fwynhau afonydd byrlymus, iach, sy'n berwi o fywyd amrywiol a rhyfeddol – o'r eog i'r cimwch afon crafanc wen, ac o'r fisglen berlog i'r llysywen Ewropeaidd.

Gweledigaeth Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren ar gyfer afon Hafren yw:

Afon Hafren fyrlymus, iach, i bawb.

Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren yw'r unig sefydliad sy'n gweithio ledled ardal gyfan Basn Afon Hafren yng Nghymru a Lloegr, tua 11,500 milltir sgwâr! Rydym yn dîm rhagweithiol a hyblyg o staff ymroddgar. Ein harwyddair yw "Rydym yn gwlychu'n traed" ("We get our feet wet") – sef ein bod yn gwneud i bethau ddigwydd ar y tir, ac yn ymdrechu'n gyson i wneud gwahaniaeth gwirioneddol a chadarnhaol ar gyfer yr afon a'i chymunedau.

Cyflwyniad i'r prosiectau

Ariennir prosiect Rheoli Tir a Dŵr yn Gynaliadwy Dyffryn Cain o dan Gynllun Rheoli Cynaliadwy 2014-2020 Rhaglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru.

Mae'r prosiect yn rhedeg o fis Mawrth 2021 i Fehefin 2023, ac fe'i harweinir gan grŵp llywio o dirfeddianwyr a chynrychiolwyr cymunedol a gefnogir gan Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren. Y nodau bras yw gwella cynefinoedd mewn afonydd ar gyfer pysgod a bywyd gwylt arall; amddiffyn afonydd rhag difrod gan stoc sy'n cael mynediad iddynt; annog camau naturiol i reoli llifogydd trwy gynyddu'r gorchudd o goetir, ynghyd ag adfer rhwydwaith o wrychoedd a chreu pyllau a gwlyptiroedd trwy gefnogi rhwydwaith o gontractwyr lleol.

Logos cyllidwyr:



Nod y prosiect yw:

- Gwella cynefinoedd pysgodfeydd a rheoli erydiad trwy osodiadau o falurion coed fel deunydd meddal i gryfhau glannau'r afon
- Gosod pont ffos
- Adeiladu a gosod 4 o waliau dyfrgwn
- Rheoli Jac y Neidiwr goresgynnol
- Rheoli clymog Japan goresgynnol
- Gosod seddau a wnaed o foncyffion coed mewn cae cymunedol
- Gosod byrddau dehongli mewn cae cymunedol
- Darparu offer llaw ar gyfer grŵp cymunedol
- Gwaith clirio llwybr cymunedol a phrysgwydd a gosod mainc yn Llansantffraid
- Creu 4 gwlyptir a 6 phwll bywyd gwyllt ar fferm
- Creu trac fferm newydd i leihau sathru'r tir
- Gosod cafnau dŵr i gyfyngu ar y stoc sy'n mynd at yr afon
- Plannu ardal o 1.5ha o goetir newydd
- Gosod ffensys stoc o ansawdd da i amddiffyn coetiroedd a gwrychoedd newydd
- Gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd a diogelu'r cwrs dŵr trwy blannu ac adfer gwrychoedd
- Ymweliadau hanner diwrnod tywysedig i'r cae cymunedol gydag ysgolion, Mencap a grwpiau cymunedol (6)
- Hyfforddiant hanner diwrnod ar gyfer myfyrwyr astudiaethau tir o Ysgol Uwchradd Llanfyllin, ffermwyr y prosiect a'r gymuned (6)

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn rhan annatod o'r prosiect. Mae'r prosiect yn hyrwyddo mwy o barch a dealltwriaeth o gynefinoedd a rhywogaethau arbennig afon Cain, gan gynnwys y dyfrgi, yr eog, a glas y dorlan, ynghyd â throchwyr ac infertebratau'r afon, fel clêr Mai a phryfed y cerrig.

Brîff yr Arlunydd

Cynhyrchu dyluniadau sy'n barod i'w hargraffu ar ddau banel dehongli, i'w trefnu gan Swyddog Cymunedol Ymddiriedolaeth Afon Hafren. Sicrhewch, os gwelwch yn dda, bod y dyluniadau'n cynnwys logos y cyllidwyr, logo Ymddiriedolaeth Afon Hafren, a'u bod yn cynnwys y testun Cymraeg a Saesneg dwyieithog (nodwch p'un a ydych yn cynnwys costau cyfieithu). Rhaid i bob darlun o fywyd gwyllt fod yn gywir o safbwynt lleoliadau a chynefinoedd ardal y prosiect.

Byddwch yn gweithio ag Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren i gynhyrchu celfwaith i'w roi ar ddau banel dehongli yng Nghae Bodfach Llanfyllin. Byddwch hefyd yn gweithio â'r gymuned leol i greu dyluniadau sy'n dathlu amgylchedd afon Cain, a'r dirwedd sy'n cael ei ffermio o'i hamgylch.

Rhaid i'r dyluniad fod yn ddehongliad o'r byd naturiol, o reoli tir mewn modd cynaliadwy, ynghyd â'n cyfrifoldeb i ofalu amdano, ac amryfal fanteision coed yn y dirwedd, o ran yr hinsawdd, llifogydd, ffermio a bywyd gwyllt. Bydd y byrddau dehongli yn creu manau hygyrch, diogel ac ysbrydoledig, lle gall trigolion lleol ac ymwelwyr fwynhau natur, gan greu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden iach, yn yr awyr agored.

Byddwch yn cyflenwi sesiynau awyr agored dros gyfnod y 1 x ½ diwrnod gyda myfyrwyr Amaeth BTEC o Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn un o ffermydd ein prosiect, sesiwn awyr agored 1 x ½ diwrnod gyda Grŵp Afon Dyffryn Cain, ynghyd â sesiwn 1 x ½ diwrnod gydag Ysgol Gynradd Llanfyllin.

Bydd yr holl gostau dylunio'n cynnwys caniatâd i Ymddiriedolaeth Afon Hafren eu defnyddio mewn prosiectau parhaus, gan gynnwys eu rhannu â'n partneriaid a'n cyllidwyr i hyrwyddo ein gwaith. Caiff yr arlunwyr eu cydnabod bob tro yr atgynhyrchir y dyluniadau.

Cyflwyniad i'r Lleoliad

Cae Bodfach, Llanfyllin Powys SY22 5AH yw man agored cyhoeddus Cyngor Tref Llanfyllin. Mae'n cynnwys sawl elfen: man agored cymunedol sydd wedi'i wobrwyo â Gwobr Baner Werdd Cadw Cymru'n daclus (cynllun draenio trefol cynaliadwy); perllan gardd goedwig gymunedol; coetir cymunedol Coed Cadw; adnodd tanwydd cymunedol; cynllun blychau nythod adar gwyllt; gwâl artiffisial i ddyfrgwn; perllan ar gyfer mathau Treftadaeth o goed gellyg seidr a pherai, ynghyd â thrac pwmpio ar gyfer beiciau mynydd.

Amserlen

Cyflenwir y sesiynau cyn hanner tymor mis Chwefror 2022, rhaid cwblhau'r dyluniadau erbyn gwyliau Pasg 2022.

Bydd y dyluniad yn ymddangos ar ddau banel dehongli yng Nghae Bodfach, Llanfyllin, lle daw yn eiddo i Gyngor Tref Llanfyllin.

Caiff yr arlunydd gopïau o logos Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren a chyllidwyr y prosiect ar gyfer eu cynnwys yn y dyluniad.

Dethol a Chymhwysra

Mae angen i arlunwyr sy'n ymgeisio ddangos profiad o gelf gymunedol ac o gyflenwi gweithdai celf i ysgolion a grwpiau cymunedol. Bydd gofyn i arlunwyr weithio ochr yn ochr ag Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren, a rhoi arweiniad i staff a gwirfoddolwyr y prosiect i sicrhau diogelwch cyfranogwyr ac ymgysylltiad â hwy.

Y Weithdrefn Ymgeisio

Gwahoddir arlunwyr i gyflwyno, trwy e-bost at lisabarlow@severnriverstrust.com:

- Y Cynnig ar Gyfer y Prosiect (Uchafswm o 2 ochr o A4) wedi'i gyfeirio at y Severn Rivers Trust, Unit 3 Hope House Farm Barns, Hope House Lane, Martley, Worcester, WR6 6QF
- O leiaf 5 delwedd / astudiaeth achos o waith blaenorol
- Cyfeiriadau ar gyfer sianelau cyfryngau cymdeithasol perthnasol
- CV cyfredol
- Rhif tystysgrif DBS a dyddiad ei chyflwyno (os nad ydych yn dal tystysgrif DBS gyfredol, rhaid i chi fod yn barod i ymgymryd â gwiriad cyn eich cyflogi gan yr Ymddiriedolaeth)
- Copïau o bolisiâu diogelu ac iechyd a diogelwch, ynghyd ag asesiadau risg o weithgareddau (os nad oes gennych y rhain, trefnwch i lofnodi cytundeb â pholisiâu Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren)
- Copïau o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus
- Dau ganolwr (un i ddarparu geirda o safbwynt eich gwaith ac un o ran eich cymeriad)

Am ragor o fanylion, cysylltwch â Dewi Morris Dewi.morris@severnriverstrust.com

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau:

22^{ain} Tachwedd 2021.